


Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Beth yw'r brechlyn atgyfnerthu 3-mewn-1 i bobl ifanc?




Hefyd gyda'r Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Arddegwyr, byddi di fel arfer yn cael y brechlyn MenACWY tua'r oedran yma, sy'n dy amddiffyn rhag Llid yr Ymennydd a Septisemia.
Bob blwyddyn, mae dros 500,000 o bobl ifanc fel ti yn cael y brechlyn, sy'n atgyfnerthu'r amddiffyniad ges di drwy'r brechlynnau pan oeddet ti'n fabi,
sy'n sicrhau amddiffyniad parhaus i ti yn erbyn tri gwahanol haint; Tetanws, Difftheria a Pholio.
Tetanws. Gall tetanws ddatblygu pan fydd bacteria'n mynd i mewn i dy gorff drwy doriadau bach yn dy groen a gall arwain at broblemau anadlu ac effeithio ar y system nerfol.
#IN 01
ID: TETANWS
IECHYD CYHOEDDUS CYMRU
#IN 02
ID: DIFFTHERIA
IECHYD CYHOEDDUS CYMRU
Difftheria. Er ei fod yn brin yng Nghymru, mae'n gallu bod yn eitha difrifol. Mae'n dechrau fel dolur yn eich gwddf ond yn fuan wedyn mae'n gallu achosi niwed i'r galon.
#IN 03
ID: POLIO
IECHYD CYHOEDDUS CYMRU
A Polio. Firws sy'n ymosod ar yr ymennydd a'r cyhyrau yw hwn, ac mae'n gallu achosi parlys os na fydd rhywun yn cael eu hamddiffyn yn ei erbyn.
Yn y rhan fwyaf o achosion, dyma'r dos olaf o frechlynnau tetanws, difftheria a pholio sy'n cael ei roi yn ystod plentyndod. Mae'r broses frechu yn syml iawn. Yn gyntaf, bydd y nyrs yn gwirio bod ganddyn nhw eich caniatâd i fwrw ymlaen.
Mae pob brechlyn yn mynd trwy lwyth o brofion gyda miloedd o gyfranogwyr felly maen nhw'n ddiogel iawn, a dyw'r un yma ddim gwahanol.


Bydd y brechlyn yn cael ei roi yn y fraich uchaf.
Mae'r cyfan drosodd mewn ychydig eiliadau.
Mae angen atgoffa dy gorff sut i dy amddiffyn rhag y clefydau yma,
a dyna yw pwrpas y brechlyn.
Mae'r brechlynnau'n cael eu defnyddio i atgoffa dy wrthgyrff i sylwi'n syth ar y clefyd ac i ymladd yn ei erbyn os byddi di'n dod ar draws y firws yn y dyfodol.
SHWSSHHH




**Os hoffet ti rannu popeth rwyt ti wedi'i ddysgu am y Brechlyn Atgyfnerthu 3-mewn-1 i Arddegwyr gyda dy riant neu dy warcheidwad, galli di ddangos y comig yma iddyn nhw. Neu, galli di anfon dolen iddyn nhw i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
**icc.gig.cymru/brechlynnau**

**Os nad wyt ti'n mynd i'r ysgol, neu os na fyddi di yn yr ysgol ar ddiwrnod y brechlyn, galli di drefnu apwyntiad i'w gael yn dy feddygfa neu cysyllta â nyrs yr ysgol neu'r tîm imiwneiddio.**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Fersiwn 1